
ALLWCH CHI FYND O FAN HYN I FANCO?

ADDYSG ÔL-16, CYNNYDD
CYMDEITHASOL A CHYDNERTHEDD
ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

Dr Mark Lang
Chwefror 2020



COLEGAU CYMRU

TABL CYNNWYS

CYFLWYNIAD	4
Y LENS ECONOMAIDD	6
Y LENS CYMDEITHASOL	9
Y LENS CYFLAWNI	14
Y LENS GOFODOL	16
Y LENS GWERTHUSO	20
CYFEIRIADAU	22

1. CYFLWYNIAD

Addysg Ôl-16, Cynnydd Cymdeithasol a Chydnherthedd Economaidd-Gymdeithasol

Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae trafodaethau polisi am addysg ôl-16 yng Nghymru a thrwy'r Deyrnas Unedig wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar sut y mae darpariaeth yn cael ei hariannu. Er bod y trafodaethau hyn am ariannu yn bwysig, nod y papur trafod hwn, sydd wedi'i lunio ar gyfer Colegau Cymru, yw cyfrannu at drafodaethau polisi ehangach ynghylch a yw'r ddarpariaeth addysgol bresennol yn hybu symudedd cymdeithasol ac yn gwneud digon i alluogi pobl ifanc i fyw bywydau sy'n llawn 'lles'. Er bod y papur hwn yn canolbwyntio ar addysg ôl-16, er mwyn llywio'r drafodaeth mae hefyd yn edrych ar ddarpariaeth addysgol yn fwy cyffredinol ac ar brofiadau cymaradwy ehangach. Dyma'r cwestiwn canolog y mae'n ceisio'i ystyried: a yw'r ddarpariaeth addysgol bresennol yn hybu cynnydd cymdeithasol a chydnherthedd economaidd-gymdeithasol ar gyfer pobl ifanc o gymunedau o amddifadedd a chefnidiroedd personol difreintiedig? Wrth roi sylw i'r cwestiwn hwn, nid yw'r papur yn cynnig atebion penodol – bydd hynny'n destun gwaith pellach. Ond mae'n dechrau datblygu naratif a fframwaith cysyniadol i'w defnyddio i ateb y cwestiwn.


Mae cynnydd addysgol pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig a chymunedau o amddifadedd yn bwnc arbennig o berthnasol yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn ehangach, gan fod bellach fwy o anghydraddoldeb sgiliau a llai o symudedd cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig nag mewn unrhyw wlad ddatblygedig arall (Janmaat a Green, 2013). At hynny, mae lefelau'r anghydraddoldeb economaidd a chymdeithasol yn y Deyrnas Unedig bellach yn ddigynsail (Oxfam, 2016).

Mae'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol (2019) wedi dweud bod symudedd cymdeithasol wedi aros yn ei unfan dros y pedair blynedd ddiwethaf, a hynny fwy neu lai ym mhob cyfnod ym mywydau pobl, o'r crud i'r gwaith. At hynny, os cewch eich geni'n ddifreintiedig, mae'n rhaid goresgyn rhwystrau niferus i sicrhau nad ydych chi a'ch plant yn gaeth i'r un fagl.

Roedd adroddiad diweddar Augar (2019) yn awgrymu bod tueddiad mwy hirdymor i'w weld, ac nad yw symudedd cymdeithasol ym Mhrydain wedi gwella mewn dros hanner canrif. Dywed nad yw cynnydd mewn cyfoeth a newidiadau yn strwythur cyffredinol y farchnad swyddi wedi cael unrhyw effaith ar gyfleoedd cymharol pobl sy'n cael eu geni mewn grwpiau llai breintiedig.

Nid yw'r problemau hyn yn unigryw i'r Deyrnas Unedig, a dangosodd adroddiad diweddar gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (2018) fod symudedd cymdeithasol wedi aros yn ei unfan neu'n dirywio mewn nifer o wledydd. Serch hynny, mae'r broblem yn arbennig o ddrwg yn y Deyrnas Unedig. Yn ôl amcangyfrifon yr OECD, ar sail y tueddiadau presennol, byddai angen pum cenhedlaeth ar deulu incwm isel i gyrraedd lefel incwm cyfartalog teuluoedd yn y Deyrnas Unedig. Mae'r adroddiad hefyd yn dweud y bu gan bobl a anwyd rhwng 1945 a 1975 gyfleoedd llawer gwell o symud yn gymdeithasol na phobl a anwyd ar ôl hynny. Yn gefndir i'r anghydraddoldebau hyn y mae ansicrwydd cynyddol am ddyfodol patrymau gweithio. Mae awtomatiaeth a deallusrwydd artifisial eisoes yn cael effaith hynod o niweidiol ar ffurfiau traddodiadol ar waith, ac mae disgwyl i hyn waethygu'n sylweddol dros y degawdau nesaf (Buchanan, 2018). At hynny, mae ffurfiau newydd o 'gyfalafiaeth darfol' yn tansilio cysyniadau traddodiadol ynghylch creu cyfoeth, ac mae gwir angen am gydbwysu amgylcheddol o'r newydd er mwyn gofyn cwestiynau sylfaenol am ba ffurfiau ar weithgarwch economaidd y gall ac y dylai llywodraethau cenedlaethol a lleol eu caniatáu a'u cefnogi.

Ac ystyried y pryderon byd-eang hyn, mae'n syndod bod prinder ffynonellau data cynhwysfawr sy'n rhoi gwybodaeth ddibynadwy a diweddar am addysg a symudedd cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Ganolfan Ymchwil ar gyfer Dysgu a Chyfleoedd Bywyd (LLAKES) yn y gorffennol wedi defnyddio



data'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Cymwyseddau Oedolion (PIAAC) ar mwyn asesu'r elfennau addysgol a'r elfennau eraill hynny sy'n arwain at anghydraddoldebau sgiliau ymhlith oedolion. Drwy gymharu data am ddisbarthiad sgiliau ymhlith pobl 28-31 oed yn 2013 mewn gwledydd penodol (data gan PIAAC) a data am ddisbarthiad sgiliau ymhlith pobl 15 oed yn 2000-03 (data gan PISA), roedd modd i LLAKES asesu pa mor hir y mae anghydraddoldeb sgiliau o'r fath yn para, yn ogystal ag asesu effaith dysgu ôl-orfodol ac addysg oedolion ar gynnydd neu liniaru anghydraddoldeb o'r fath. Yn anffodus, nid oedd y data hyn ar gael ar gyfer Cymru. At hynny, roedd yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn arfer cyhoeddi ffigurau am faint o bobl o gefndiroedd dosbarth gweithiol – yn ôl diffiniad dosbarthiadau swyddogol NS-SEC – a aeth i'r brifysgol. Ond rhoddwyd y gorau i gynhyrchu'r data hyn yn 2015 (Worrall, 2017).

Efallai mai'r Arolwg o Lafurlu'r Deyrnas Unedig, a gynhelir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yw'r ffynhonnell ddata orau, yn enwedig gan fod yr Arolwg yn casglu gwybodaeth

am gyrhaeddiad addysgol pobl wrth iddynt ddod yn rhan o'r gweithlu, yn ogystal â gofyn cwestiynau am alwedigaethau rhieni pobl. Mae dadansoddiad Henehan (2019) o'r data hyn, dadansoddiad y cyfeirir ato mewn manau yn y papur trafod hwn, wedi'i gyfyngu i'r grŵp oedran 22-64 oed wrth sôn am yr oedran gweithio arferol¹. Mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth² i ganfod lefelau cyrhaeddiad, a gellir defnyddio hwn i ganfod lefelau cyrhaeddiad addysgol absoliwt yn ôl ardaloedd awdurdodau lleol ac amryw o ffactorau eraill.

Mae'r papur trafod hwn wedi'i strwythuro o amgylch safbwyntiau gwahanol, neu 'lensys', y gellir eu defnyddio i awgrymu atebion maes o law. Mae'r lensys hyn yn cynnwys lens economaidd, lens cymdeithasol, lens cyflawni, lens gofodol a lens gwerthuso i gloi.

¹ Defnyddir 22, yn hytrach na 16 neu 18, i ddynodi blwyddyn gyntaf oedran gweithio oherwydd dyma'r oedran pryd y bydd y rhan fwyaf o oedolion sydd wedi'u haddysgu mewn prifysgolion yn gadael astudio amser llawn ac yn dod yn rhan o'r farchnad lafur. Dadleuwyd y gallai edrych ar ganlyniadau addysgol yn gynt ostwng yn artifisial gyfran y graddedigion mewn grŵp penodol neu grŵp oedran.

² Nid yw'r Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth yn un a gynhelir ar ei ben ei hun; mae'n defnyddio data o ddwy don o'r prif Arolwg o'r Lafurlu, wedi'u casglu drwy gryfhau sampl lleol.

2. Y LENS ECONOMAIDD

Ers Argyfwng Ariannol 2007-08, mae'r pryderon wedi bod yn cynyddu am yr anghydraddoldebau cyfoeth sy'n ymddangosiadol hollbresennol yn y model economaidd Neoryddfrydol, model sy'n hynod o flaenllaw drwy'r byd (gweler, er enghraifft: Atkinson, 2015; Castells et. al., 2012; Dorling, 2015). Wrth i anghydraddoldebau ddwysáu, mae'r addewid y byddai cyfoeth yn llifo'n raddol o'r brig i'r gwaelod yn ymddangos yn fwy di-sail nag erioed. Yn hytrach, gwelwyd pegynnu sylweddol o ran cyfoeth. Mae Oxfam (2016) wedi dangos bod gan y 62 unigolyn cyfoethocaf bellach fwy o gyfoeth na 50 y cant o bobl dlotaf y byd, tra bo gan un y cant o bobl bellach gymaint o gyflog â'r 99 y cant arall. Yn y Deyrnas Unedig yn 1997, roedd cyfoeth yr un y cant cyfoethocaf 18 gwaith maint cyfoeth y 90 y cant isaf. Erbyn 2018, roedd 60 gwaith yn fwy (Gulliver, 2016). O ganlyniad, y Deyrnas Unedig bellach yw un o'r gwledydd mwyaf anghyfartal (OECD, 2017). Mae cysylltiad agos rhwng yr anghydraddoldeb hwn a lefelau isel o symudedd cymdeithasol (RSA, 2019).

Er y dadleuwyd na all addysg wneud iawn yn llwyr am hyd a lled yr anghydraddoldeb a geir mewn cymdeithasau modern, mae ganddo, serch hynny, botensial i wneud

gwahaniaeth (Whitty ac Anders, 2014). Nid yw hyn yn golygu cynyddu gwariant cenedlaethol ar addysg yn unig; dylid deall hynny fel rhywbeth angenrheidiol, ond annigonol (Buchanan et. al., 2017). Mae gallu addysg i helpu i orchfygu anghydraddoldebau economaidd yn dibynnu, i ryw raddau, ar union natur y ddarpariaeth addysg ei hun. Mae gan systemau addysg cenedlaethol gyfraniad pwysig i'w wneud wrth ail-greu strwythurau dosbarthiadau cymdeithasol drwy effeithiau cymwysterau ar gyfleoedd bywyd pobl. Ers yr Ail Ryfel Byd, meithrin sgiliau ar gyfer cystadleurwydd economaidd fu prif nod polisiâu addysg cenedlaethol (Green, 2011). Ers y 1980au, yn ogystal â chael effaith ar bolisiau economaidd, mae Neoryddfrydiaeth wedi cael dylanwad cynyddol ar bolisiau addysg.

Canfu Green (2011) a Janmaat a Green (2013), a ganolbwyntiodd yn helaeth ar ddysgu gydol oes yn y Deyrnas Unedig, fod tair cyfundrefn wleidyddol ac economaidd fyd-eang yn y byd 'datblygedig'. Roeddent yn dadlau bod gan bob un o'r cyfundrefnau hyn eu ffurfiau unigryw eu hunain ar ddarpariaeth addysg a bod hyd a lled y cydlyniant cymdeithasol ynddynt yn amrywio.

Rhyddfrydol	Marchnad Gymdeithasol	Democrataidd Gymdeithasol
I'w chael yn y Deyrnas Unedig, yr Unol Daleithiau ac ati- er y gall cymryd rhan mewn dysgu gydol oes yn y gwledydd hyn roi hwb i gyfraddau cyflogaeth a chystadleurwydd, mae hyn yn dueddol o arwain at ganlyniadau sgiliau anghyfartal sy'n tansilio cydlyniant cymdeithasol.	I'w chael yng ngwledydd gogledd-orllewin Ewrop gyfandirol – er bod llai o begynnu yn y gwledydd hyn fel arfer, ar y cyfan mae llawer llai o bobl yn cymryd rhan mewn dysgu gydol oes, sy'n golygu llai o gyrhaeddiad a chynnydd addysgol.	I'w chael yn y gwledydd Nordig – mae'r canlyniadau sgiliau yn fwy cyfartal yn y gwledydd hyn, ac mae tuedd i'w cymdeithasau fod yn fwy cydlynol; mae lefelau uwch o ddysgu gydol oes, ynghyd â pholisiau pendant i'r farchnad lafur, yn cynyddu cystadleurwydd economaidd.

Mae'n ymddangos bod anghydraddoldeb economaidd ar ei uchaf mewn cyfundrefnau Rhyddfrydol a'r rheini lle ceir Marchnad Gymdeithasol, ac ar ei isaf yn y gwledydd Democratiaidd Gymdeithasol Nordig sy'n dueddol o ddefnyddio llai ddulliau detholus a llai o ddulliau sy'n


seiliedig ar lwybrau addysg penodol (Green, 2011). Mewn cyfundrefnau Rhyddfrydol, mae'n ymddangos bod agendâu addysg a sgiliau yn rhoi mwy o sylw amlwg i dwf a chystadleurwydd (Buchanan, 2017) na lles pobl.

Mae'r siart isod, sydd wedi'i seilio ar yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2018, yn rhoi darlun cryno o lefel gyfartalog y cymwysterau sydd gan bobl drwy Cymru gyfan (rhoddir mwy o fanylion am ardaloedd awdurdodau lleol unigol yn

ddiweddarach yn y papur hwn). Gwelir bod gan 79 y cant o boblogaeth Cymru gymwysterau uwchben Lefel Dau, tra bo gan 28 y cant gymwysterau uwchben Lefel Pedwar.

CANRAN YR OEDOLION OEDRAN GWEITHIO SYDD Â CHYMWYSTERAU AR LEFELAU'R FFRAMWAITH CYMWYSTERAU CENEDLAETHOL, CYMRU GYFAN

Ffig. 1



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, 2018

Mae ymchwil diweddar gan ColegauCymru (2019) wedi dangos mai'r tair Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol yng Nghymru (y Gogledd, y De-ddwyrain, a'r De-orllewin a'r Canolbarth) yw'r prif ffyrdd o greu agendâu sgiliau rhanbarthol (is-ranbarthol) cyffredin, a'r rheini'n ceisio dylanwadu ar ddarpariaeth addysg ôl-16. Sefydlwyd y Partneriaethau gan Lywodraeth Cymru er mwyn creu Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol, ac mae angen i'r rhain integreiddio â rhaglenni economaidd eraill fel Bargeinion Dinesig/Bargeinion Twf, Rhanbarthau Dinesig ac

Ardaloedd Menter. Dylid nodi ei bod yn ymddangos bod y rhaglenni hyn yn gwbl gyson â phwyslais y gyfundrefn ryddfrydol ar dwf a chystadleurwydd (Lang a Marsden, 2018).

Yn 2015, rhyddhaodd Fforwm Economaidd y Byd a'r Boston Consulting Group eu hadroddiad New Vision for Education: Unlocking the Potential of Technology. Fel y dangosir yn y tabl isod, roedd yr adroddiad hwn yn ceisio dangos pa sgiliau yr oedd eu hangen ar bobl i oroesi yn y byd modern.

Mathau o lythrennedd sylfaenol	Cymwyseddau	Rhinweddau cymeriad
<ol style="list-style-type: none"> Llythrennedd Rhifedd Llythrennedd wyddonol Llythrennedd TGCh Llythrennedd ariannol Llythrennedd ddiwylliannol a sifig 	<ol style="list-style-type: none"> Meddwl beirniadol a datrys problemau Creadigrwydd Cyfathrebu Cydweithio 	<ol style="list-style-type: none"> Chwilfrydedd Menter Dyfalbarhad a dyncwch Hyblygrwydd Arweinyddiaeth Ymwybyddiaeth gymdeithasol a diwylliannol

Ffynhonnell: Fforwm Economaidd y Byd/BCG, 2015 (dyfynnwyd yn Buchanan et. al., 2017)



Mae'n ymddangos bod y matrices sgiliau hwn wedi'i seilio ar y disgwrs generig sydd wedi'i ddilyn ers tro byd ym maes sgiliau cyflogadwyedd, a hwnnw'n dylanwadu ar gyfundrefnau hyfforddi sy'n seiliedig ar gymwyseddau. Yn ôl dadl Buchanan et. al. (2017), prin y gall y disgwrs hwn gynorthwyo o gwbl i oresgyn y rhesymeg sy'n hollbresennol ac yn ymhlwg mewn Neoryddfrydiaeth, sef rhesymeg sy'n arwain at ddatblygiad economaidd sy'n dwysáu anghydraddoldeb.

Mewn gwledydd â chanddynt gyfundrefnau Rhyddfrydol, twf yw'r dull a dderbynnir yn gyffredinol ar gyfer mesur cynnydd economaidd, a hwnnw wedi'i fesur gan Gynnyrch Domestig Gros. Gan fod twf wedi arwain at rai canlyniadau cymdeithasol gwerth chweil dros gyfnod cyfyngedig o amser, mae tuedd i dybio ei fod wastad yn amcan i'w ddeisyfu (Spretnak a Capra, 1986). Rhagdybiaeth ganolog polisi economaidd, o ganlyniad, fu fod pawb yn elwa o economi ar ei thwf. Yn ystod y 1960au a'r 1970au, roedd llawer o dystiolaeth i gefnogi'r safbwynt hwn, gan fod perthynas gref i'w gweld rhwng Cynnyrch Domestig Gros y pen a rhai dangosyddion lles, fel disgwyliad oes a chyfraddau llythrennedd (Bleys a Whitby, 2015). Mae'r berthynas honno mewn gwledydd datblygedig yn llai amlwg heddiw (Stiglitz et. al., 2010).

Mae'n ymddangos mai'r brif broblem gyda thwf, fel dull o fesur llwyddiant, yw'r ddibyniaeth arferol ar Gynnyrch Domestig Gros fel metrig i'w asesu. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn diffinio Cynnyrch Domestig Gros fel gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau a gynhyrchir yn ystod

cyfnod penodol. Awgrymodd Kuznets, a fu'n gyfrifol am ddatblygu Cynnyrch Domestig Gros yn wreiddiol, y dylid hepgor unrhyw beth sy'n niweidiol i les, fel anghydraddoldeb (gan gynnwys anghydraddoldeb canlyniadau addysgol), tlddi, a dirywiad ecolegol. Mae'r modd y mae twf economaidd yn cael ei gyfrifo heddiw, fodd bynnag, yn diystyru pryderon Kuznets (Pilling, 2018). O ganlyniad, nid yw Cynnyrch Domestig Gros yn mesur lles economaidd pobl, gan nad yw'n gwahaniaethu rhwng costau a buddion. Mae'r naratif sy'n seiliedig ar dwf wedi dod mor flaenllaw, mae hyd yn oed syniadau mwy blaengar yn aml wedi'u seilio arno, hyd yn oed os yw hynny o dan amrywiolyn 'cynhwysol'.

Mae cyfyngiadau twf wedi dod yn gynyddol amlwg gyda dyfodiad technolegau tarfol a ffurfiau newydd ar gyfalafiaeth na ellir eu cyfrifo yn y ffordd draddodiadol drwy Gynnyrch Domestig Gros. Yn yr un modd, mae effaith awtomatiaeth ar swyddi hefyd wedi tanseilio'r ffydd yng ngallu twf i arwain at ganlyniadau buddiol. Er y bu rhywfaint o gynnydd mewn gwaith sy'n galw am sgiliau uwch, nid yw hyn wedi digwydd ar yr un gyfradd â'r dirywiad a fu mewn swyddi ar lefel ganolig. Os bydd y duedd hon yn parhau, bydd llawer o'r rheini sy'n cael eu dadleoli drwy awtomatiaeth yn gorfod cael swyddi sy'n gofyn am lai o gymwysterau. Nid yn unig y bydd hynny'n lleihau eu hincwm, ond bydd hefyd yn cynyddu'r gystadleuaeth ymhlith gweithwyr cyflog is (Buchanan et. al., 2018). Mae i'r tueddiadau hyn oblygiadau sylweddol i bolisiâu addysg, yn ogystal ag i gydlyniant cymdeithasol, yn enwedig yn y gwledydd hynny sy'n glynu agosaf at y gyfundrefn Ryddfrydol.


3. Y LENS CYMDEITHASOL

Yn ystod y 1960au, roedd cred gyffredinol bod addysg yn ateb posibl i amrywiaeth o broblemau cymdeithasol. Ers hynny, fodd bynnag, mae economegwyr yn benodol wedi dangos llai o ddiddordeb mewn heriau cymdeithasol, ac o ganlyniad mae eu dychymyg ynghylch yr amrywiaeth o fuddion a all ddeillio o addysg hefyd wedi pylu (Leigh, 2001). Fel y trafodir uchod, yr hyn a gollwyd o'r safbwynt Neoryddfrydol am addysg, yn debyg i'r safbwynt Neoryddfrydol am yr economi'n fwy cyffredinol, oedd yr ymdeimlad mai pobl oedd canolbwynt y system addysg. Dadleuodd Smyth (2016) y dylai fod gan bob dinesydd hawl i addysg. Mae'r dull o ddarparu addysg sy'n seiliedig ar dargedau yn dueddol o ganolbwyntio mwy ar enillwyr a chollwyr, yn hytrach nag ar hawliau o'r fath. Mae tuedd i feddwl bod darpariaeth addysg sydd wedi'i seilio ar fodel sgiliau cyflogadwyedd generig yn ddarpariaeth deg, ond mae amodau pwysig ynghlwm wrth hynny (Buchanan, 2018), fel effaith cyfalaf cymdeithasol a diwylliannol (gweler: Bills et. al., 2017), a'r berthynas rhwng lefelau incwm teuluoedd a'r cyflog y bydd pobl ifanc yn ei ennill yn ddiweddarach (gweler: Britton et. al., 2016).

Er bod gan addysg y potensial i helpu i oresgyn anghydraddoldebau economaidd, dadleuodd Buchanan et. al. (2017) na ddylai hyn ymwneud ag aiddosbarthu cyfoeth yn unig. Dylai addysg ymwneud â'r buddion ehangach i bobl a chymdeithas, ac nid ag economeg yn unig. Maent yn awgrymu y dylai addysg feithrin gallu pobl i addasu drwy greu 'ymagweddau dysgu' (byddwn yn dychwelyd at hyn yn ddiweddarach yn y papur). Cyflwynodd McMahon (1999) (dyfynnwyd yn Leigh, 2001) y term 'datblygiad mewndarddol' ('endogenous development') i'r disgwrs am bolisi addysg. Mae hwn yn gysyniad ehangach o lawer na 'thwf mewndarddol' ('endogenous growth') gan fod datblygiad mewndarddol yn ymwneud â gwella agweddau ar

fywyd nad ydynt yn ymwneud â'r farchnad. Mae pobl sydd wedi cael gwell addysg yn dueddol o fod yn iachach ac yn dueddol o fyw'n hirach (McMahon, 1999), ac mae eu lles yn dueddol o fod yn well (Schuller et. al., 2001). Mae tuedd i wledydd sydd â chanlyniadau sgiliau mwy cyfartal fod â mwy o gydraddoldeb incwm, cyfraddau uwch o symudedd, ac ar y cyfan maent yn fwy cydlynus yn gymdeithasol (Green, 2011).

Er gwaethaf y duedd gyffredinol yn y Deyrnas Unedig tuag at lai o symudedd cymdeithasol, mae tystiolaeth i awgrymu bod symudedd cymdeithasol wedi gwella rhywfaint yng Nghymru a'r Alban dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r siart isod yn dangos y tueddiadau yng Nghymru ers 2014. Dylid nodi, fodd bynnag, bod y data hyn yn ymwneud â chanran yr holl boblogaeth sydd mewn swyddi proffesiynol/rheoli yn ôl cefndir y rhieni, ac nid yw'n gyfyngedig i bobl sydd newydd ddod yn rhan o'r farchnad swyddi. Nid yw, felly, yn dangos yn bendant y tueddiadau diweddar mewn symudedd cymdeithasol ymhlith pobl ifanc yng Nghymru.




Ffynhonnell: Y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol (2019) Dadansoddiad o'r Arolwg o'r Llafurlu (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Mewn gwledydd sydd â chyfundrefnau Rhyddfrydol yn enwedig, ceir tystiolaeth gref o raddiant economaidd-gymdeithasol mewn cyrhaeddiad hyd yn oed cyn i blant gyrraedd oedran ysgol gorfodol yn bump oed, ac mae'n ymddangos bod hyn yn parhau drwy'r system addysg (Whitty ac Anders, 2014). Yn y Deyrnas Unedig, cymysg yw'r dystiolaeth ynghylch cyrhaeddiad addysgol. Yn eu hadolygiad o ddata a gafwyd o'r Arolwg o Lafurlu'r Deyrnas Unedig, canfu Henehan (2019) dystiolaeth gref o anghydraddoldebau cymdeithasol yng nghyfraddau'r bobl a oedd yn ennill gradd. Gwelsant fod gradd gan 37 y cant o bobl 30-34 oed heddiw a oedd â rhiant yn gweithio mewn swydd sgiliau uchel, o'i gymharu â 22 y cant o'r bobl â'u rhieni'n gweithio mewn swyddi sgiliau canolig neu is. Er bod y gwahaniaethau hyn yn nodedig ymhlith pobl ifanc, mae'r anghydraddoldebau'n

fwy ymhlith grwpiau oedran hŷn. Ymhlith pobl 50-54 oed, mae'r gyfran o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch a aeth yn eu blaenau i gael gradd (25 y cant) dros ddwywaith yn uwch na'r gyfran o aelwydydd sgiliau canolig i sgiliau is a wnaeth hynny (12 y cant). Mae'r ffaith bod maint y gwahaniaethau hyn yn is ymhlith grwpiau iau yn awgrymu bod y bwch rhwng dosbarthiadau wedi culhau, wrth edrych ar y rheini sy'n ennill gradd.

Nid yw'r blwch rhwng dosbarthiadau cymdeithasol, fodd bynnag, wedi culhau rhyw lawer ar lefel ôl-raddedig. Fel y gwelir yn y tabl isod, wrth edrych ar y rheini sy'n ennill graddau meist drwy'r Deyrnas Unedig, nid yw'r gwahaniaeth rhwng y dosbarthiadau yn llawer llai ymhlith pobl 30-34 oed nag ymhlith pobl 50-54 oed.



Ffynhonnell: Henehan (2019) gan ddefnyddio'r Arolwg o Lafurlu'r Deyrnas Unedig





Mae dwy theori wedi datblygu sy'n helpu i esbonio'r patrymau hyn. Yn ôl theori Raftery a Hout (1993), 'Anghydraddoldeb a Gynhelir i'r Eithaf' ('Maximally Maintained Inequality'), wrth i'r system addysg ehangu fesul cyfnod, gall grwpiau cymdeithasol uwch barhau i gael mantais cyn belled â bod y cynnydd yn nifer y bobl o'r grwpiau uwch hynny sy'n cymryd rhan yn y system addysg yn y cyfnod dan sylw yn cynyddu ar yr un gyfradd â nifer y bobl o blith grwpiau is sy'n cymryd rhan, neu ar gyfradd gyflymach. Pan fydd lefel y myfyrwyr elitaidd sy'n cymryd rhan yn cyrraedd yr uchafswm posibl, fodd bynnag, yna mae'r gystadleuaeth am safleoedd yn dueddol o symud i lefel addysg uwch. Gan hynny, i gynnal eu mantais, bydd pobl ifanc o deuluoedd sgiliau uwch wedi ennill graddau meistr ar gyfradd uwch na'r bobl ifanc hynny o deuluoedd sgiliau isel a chanolig. At hynny, yn ôl theori 'Anghydraddoldeb a Gynhelir Mewn Gwirionedd' ('Effectively Maintained Inequality') (Lucas, 2001), mae darpariaeth dorfol ar y lefel is yn datblygu mwy o lwybrau gwahanol, a'r rheini wedi'u trefnu'n gynyddol o dan hierarchaeth statws. Mae myfyrwyr elitaidd yn dueddol o hawlio'r llwybrau addysg mwyaf arbennig sydd â'r llwybrau cynnydd gorau i addysg uwch. O ganlyniad, er enghraifft, mae tuedd i ddisgyblion o ysgolion preifat sy'n astudio pynciau penodol fel meddygaeth a'r gyfraith ar lefel addysg uwch fod wedi'u gorgynrychioli'n sylweddol, a hynny mewn modd anghymesur.

Yn y Deyrnas Unedig, mae canran sylweddol uwch o bobl ifanc o gefndiroedd teuluol proffesiynol yn mynychu prifysgolion Grŵp Russell na'r rheini o gefndir teuluol heb sgiliau (Machin et. al., 2009). Ar yr un pryd, fel y dangosodd adroddiad Augar (2019), mae myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig yn fwy tebygol o fynychu 'sefydliadau tariff isel' ac yn fwy tebygol o adael y sefydliadau hynny'n gynnar, ac mae'r gyfradd honno'n anghymesur. Awgrymir bod y myfyrwyr hyn hefyd yn llai tebygol o gael graddau dosbarth cyntaf neu ail ddsbarth uwch o'u cymharu â'u cymheiriaid mwy breintiedig, ac mae tuedd iddynt ennill llai o gyflog ar ôl graddio. Ar ben hynny, mae'n ymddangos bod problemau dyled yn rhwystro pobl o aelwydydd incwm is rhag dilyn llwybrau i addysg uwch. Gyda chryn gyfiawnhad, mae'n ymddangos mai myfyrwyr o aelwydydd incwm isel sy'n debygol o fod â'r dyledion mwyaf ar ôl graddio. O ganlyniad, er ei bod yn ymddangos bod y gwahaniaethau yn y lefelau cyfranogi'n lleihau, mae'n debygol bod hynny'n dwyllodrus (Croxford a Raffe, 2013; Green a Pensiero, 2016).


Yn ôl awgrym Field (2013), er ei bod yn annhebygol bod gwahaniaethau rhwng cenedlaethau'n rhoi esboniad trylwyr o wahanol werthoedd, ymddygiad ac agweddau, mae'n bwysig bod arferion a pholisïau'n sensitif i'r gwahaniaethau hynny. Wrth edrych ar gyrhaeddiad dosbarth-gymdeithasol a'r lleihad yn y newidynnau perthnasol, awgrymodd Henehan (2019) hefyd y gallai'r rheswm dros hynny fod yn fwy

cymhleth na dim ond cynnydd cyffredinol yn nifer y bobl ifanc sydd â rhieni a chanddynt sgiliau lefel isel neu ganolig. Mewn degawdau blaenorol, roedd gan wrywod gwyn, er enghraifft, lefelau uwch na'r cyfartaledd o gyrhaeddiad o ran graddau, tra bo'r lefelau hynny'n gyfartalog neu'n is na'r cyfartaledd ymhlith menywod gwyn a menywod o nifer o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Erbyn heddiw, mae'r gwrthwyneb yn wir. Pobl ifanc wyn sy'n cael prydau ysgol am ddim bellach yw'r lleiaf tebygol (fel y rheini o gefndiroedd

Sipsi/Roma) o unrhyw grŵp i fynd i'r brifysgol. Mae myfyrwyr gwyn yn y mwyafrif mewn 'cymdogaethau cyfranogiad isel', sef yr ardaloedd hynny lle mae'r rheini sy'n mynd i'r brifysgol ar ei isaf (Atherton a Mazahi, 2019). Heddiw, mae pob grŵp ethnig, ac eithrio pobl Affro-Garibiaidd, yn fwy tebygol o wneud cais i astudio cyrsiau addysg uwch na'u cyfoedion gwyn (Augar, 2019).

CANRAN Y BOBL SY'N DECHRAU MEWN ADDYSG UWCH SY'N HANU O'R DEYRNAS UNEDIG AC O GYMDOGAETHAU CYFRANOGIAD ISEL, YN ÔL LLEOLIAD Y DARPARWR ADDYSG UWCH (POBL IFANC, POBL SY'N DECHRAU ASTUDIO'U GRADD GYNTAF)³

Ffig. 4



Ffynhonnell: HESA (gan ddefnyddio POLAR 3)

Drwyddi draw, mae menywod yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon 66 y cant, 54 y cant a 43 y cant yn fwy tebygol, yn y drefn honno, o wneud cais i astudio cyrsiau addysg uwch na gwrywod yn yr un gwledydd. Yn Lloegr, mae'r gymhareb wedi gostwng fymryn o 1.36 i 1.35. Nid yw'n ymddangos bod y duedd hon yn perthyn hefyd i fenywod gwyn o gymdogaethau cyfranogiad isel a chefnidiroedd dosbarth gweithiol, sy'n llai tebygol o lawer o fynd i'r brifysgol na menywod dosbarth canol (UCAS, 2019).

Mae ystod eang o ffactorau'n dylanwadu ar y dewisiadau y bydd pobl ifanc yn eu gwneud yn ystod cyfnodau pontio yn yr ysgol, ac mae'r dewisiadau hynny'n parhau i ddylanwadu ar gyrhaeddiad pobl yn ddiweddarach. Yn ôl Boudon (1974) (dyfynnwyd yn Parker et. al., 2015), mae'r gwahaniaethau yng nghyrraedd grwpiau 'sydd â risg' (fel mewnfydwyr, lleiafrifoedd, poblogaethau cynhenid a grwpiau economaidd-gymdeithasol isel) ar yr adegau pontio yn deillio o ddwy ffynhonnell: gwahaniaethau mewn cyflawniad (effeithiau

sylfaenol), a gwahaniaethau systematig mewn ymddygiadau sy'n ymwneud â dewisiadau rhesymegol (effeithiau eilaidd). Mae 'effeithiau sylfaenol' yn cyfeirio at wahaniaethau yn nosbarthiad cyflawniad academaidd y grwpiau hyn sydd â risg, o'u cymharu â'u cyfoedion (mae tuedd, ar gyfartaledd, i gyrhaeddiad addysgol grwpiau o'r fath fod yn is). Mae 'effeithiau' eilaidd yn cyfeirio at adnoddau pobl ifanc a'u teuluoedd, ac at eu hymddygiadau, pan fyddant yn gwneud dewisiadau ar adegau pontio addysgol, a'r rheini'n dylanwadu ar gyrchfannau pobl ifanc. Yn fwy cryno, dyma'r ffactorau sy'n arwain plant sydd â risg i ddewis llwybrau pontio llai uchelgeisiol, hyd yn oed pan fydd lefelau eu cyrraedd academaidd yn debyg. Mae 'Theori Safle' ('Positional Theory') Boudon yn dadlau felly bod maint y cyfalaf diwylliannol mewn gwahanol deuluoedd yn arwain at benderfyniadau gwahanol gan bobl ifanc (gweler hefyd: Green et. al., 2016, a Jackson et. al., 2007).

³Nid yw'r data hyn ar gael ar gyfer yr Alban.

4. Y LENS CYFLAWNI

Gofynnodd Buchanan et. al. (2018): pa rinweddau y mae angen inni eu meithrin yn ein plant er mwyn iddynt ffynnu, ac nid dim ond goroesi, yn yr unfed ganrif ar hugain? Roedd eu papur yn canolbwyntio ar effaith Deallusrwydd Artiffisial, gan awgrymu y byddai hwnnw'n cael effeithiau amlwg a chudd ill dau. O ran yr effeithiau amlwg, roeddent yn dadlau bod y broses o ailddylunio tasgau a swyddi yn debygol o effeithio ar swyddi sy'n gofyn am sgiliau lefel uwch, a gwaith ailadroddus, dadansoddol, a rhagweladwy yn y proffesiynau, yn ogystal ag effeithio ar swyddi sy'n gofyn am sgiliau lefel isel. O ran yr effeithiau cudd, roeddent yn dadlau bod algorithmau, gyda'r sector preifat ac elw'n gyrru'r broses o ddatblygu'r rheini, yn gwneud mwy a mwy o benderfyniadau sy'n effeithio ar ein bywydau. Mae'r penderfyniadau hyn yn cael effeithiau cynyddol ar ystod eang o agweddau cymdeithasol, yn ogystal ag economaidd, ar fywyd. Roeddent yn dadlau felly bod yn rhaid i addysg ffurfiol ddatblygu gallu creadigol pobl i addasu drwy ddatblygu 'ymagweddau dysgu' (y gallu i ganolbwyntio, i ddangos dycnwch a chwilfrydedd, a'r gallu i gymryd rhan mewn perthnasau dysgu), yn hytrach na rhoi'r sgiliau cyflogadwyedd generig a grybwyllir uchod i bobl. Er bod sylfeini ymagweddau o'r fath yn cael eu datblygu yn ystod addysg y blynyddoedd cynnar, maent yn cael eu datblygu orau yng nghyd-destun meistrolï disgyblaethau penodol neu feysydd galwedigaethol arbenigol. Roeddent yn dadlau nad yw'r prosesau diwethaf hyn, fel y maent yn cael eu haddysgu ar hyn o bryd, o anghenraid yn gwella ymagweddau dysgu. Mae'n ymddangos y byddai Bagloriaeth Cymru yn gyfle i ddatblygu ymagweddau o'r fath yng Nghymru, ond fe'i disgrifiwyd yn ddiweddar gan un o bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 'anghyson' (Wightwick, 2019).

Mae'r Ganolfan Ymchwil ar gyfer Dysgu a Chyfluoedd Bywyd (LLAKES) yn University College London, sy'n awgrymu bod gwendidau yn y dulliau presennol o ddarparu addysg alwedigaethol, ym ymchwilio i weld ai addysg a hyfforddiant galwedigaethol mewn ysgolion ynteu ai addysg a hyfforddiant galwedigaethol drwy brentisiaethau sydd fwyaf effeithiol wrth leihau'r canlyniadau anghyfartal sy'n deillio o addysg orfodol. Maent yn awgrymu bod prosesau neilltuoel yn

bodoli sy'n arwain at ail-greu anghydraddoldeb sgiliau yn ystod gwahanol adegau mewn addysg a hyfforddiant. Mewn addysg a hyfforddiant 14-19, byddai theorïau Anghydraddoldeb a Gynhelir i'r Eithaf ac Anghydraddoldeb a Gynhelir Mewn Gwirionedd yn awgrymu bod systemau gwahanol ac amrywiol, gyda mwy o bwytiau sy'n ffurfio canghennau, yn arwain yn groes i'r disgwyl at gynnydd mewn anghydraddoldebau o ran cyfleoedd a chanlyniadau ill dau. Ar y llaw arall, gall systemau mwy safonedig gael effaith groes.

Mae Green a Pensiero (2016) yn awgrymu dau esboniad. Yn gyntaf, os na fydd dysgu mathemateg a'r iaith genedlaethol yn orfodol ym mhob rhaglen uwchradd uwch, mae systemau o'r fath yn fwy tebygol o hyrwyddo anghydraddoldeb sgiliau. Yn ail, yr un fydd effaith systemau sy'n cynnwys llwybrau a'u hyd yn wahanol iawn. Ar ben hynny, pan fydd llwybrau galwedigaethol o ansawdd da ac yn denu myfyrwyr o'r holl sbectwm gallu, maent yn awgrymu bod hyn yn debygol o arwain at liniaru anghydraddoldeb sgiliau. Mewn gwledydd sydd â chfundrefnau Rhyddfrydol, caiff myfyrwyr ar gyrsiau galwedigaethol eu hasesu'n aml ar sail eu gallu i ddangos cymwyseddau, yn hytrach nag ar eu gwybodaeth o faes llafur, ac yn aml ni fydd hyd rhagnodedig i raglenni. Dadl Green a Pensiero oedd bod systemau addysg sy'n rhoi mynediad mwy cyffredinol i raglenni 14-19 hwy yn well wrth liniaru anghydraddoldeb sgiliau na systemau lle mae hyd y rhaglenni'n amrywio.

Yn ôl dadl Janmaat a Green (2013), er y gallai dysgu gydol oes mewn theori helpu i leihau bylchau mewn cyrhaeddiad a gwella symudedd cymdeithasol, y realiti yw eu bod yn dueddol o ddwysáu anghydraddoldebau o'r fath. Yn y Deyrnas Unedig, o leiaf, mae hyn gan fod rheini sydd wedi'u haddysgu'n dda a phobl sydd mewn gwaith yn cymryd mwy o ran mewn addysg oedolion na phobl sydd heb gael addysg cystal a phobl ddi-waith. Canfu adroddiad Promoting Adult Learning yr OECD (2005) fod hon yn nodwedd gyffredin yn y rhan fwyaf o wledydd yr OECD. At hynny, mae tuedd i gyflogwyr gynnig hyfforddiant yn llai aml i weithwyr sydd



â chymwysterau lefel is, ac yn gyffredinol, mae cyfraddau hyfforddiant a hyd rhaglenni hyfforddiant wedi lleihau i weithwyr yn y rhan fwyaf o alwedigaethau (Henehan, 2019).

Serch hynny, mae'r lefelau cyrhaeddiad cyffredinol yn y Deyrnas Unedig wedi cynyddu'n sylweddol dros yr 20 mlynedd diwethaf. Gostyngodd cyfran y bobl 22-64 oed a oedd â lefelau cyrhaeddiad is o 45 y cant yn 1996-98 i 30 y cant yn 2016-18. Dros yr un cyfnod o amser, er i gyfran y bobl a oedd â chymwysterau lefel canolig aros yn weddol gyson ar 30 y cant, bu i'r gyfran a oedd â chymwysterau lefel uwch fwy na dyblu, o 14 y cant i 33 y cant. Bu i'r gyfran a oedd wedi'u haddysgu i lefel gradd fwy na dyblu o 10 y cant i 21 y cant, ac er gwaethaf y gwahaniaethau o ran dosbarth a nodir uchod, bu i'r gyfran a oedd â gradd feistr neu uwch fwy na threblu, o tua pedwar i 12 y cant (Henehan, 2019).

Pan fydd myfyrwyr yn dilyn cyrsiau addysg uwch, mae'n ymddangos bod dosbarth cymdeithasol hefyd yn ddylanwadol. Ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig, gellir darparu rhaglenni addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch (prifysgolion fel arfer) neu mewn colegau addysg bellach. Canfu Croxford a Raffe (2014) fod cyfran y myfyrwyr addysg uwch amser llawn a oedd yn astudio mewn colegau yn sylweddol uwch yn yr Alban (15.8 y cant) a Gogledd Iwerddon (11.2 y cant) nag yn Lloegr (1.6 y cant) a Chymru (0.6 y cant)⁴. Canfuwyd hefyd, ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig, fod myfyrwyr addysg uwch sy'n astudio mewn colegau yn fwy tebygol o ddod o gefndiroedd cymdeithasol llai breintiedig. Yn 2018-19, roedd cyfanswm o 6,727 o fyfyrwyr yn astudio ar gyrsiau addysg uwch yng ngholegau

Cymru, gan gynnwys 3,478 ar sail amser llawn a 3,249 ar sail ran amser⁵.

Pan fydd myfyrwyr yn ennill cymwysterau cyn dilyn cyrsiau addysg uwch, mae'n ymddangos bod hynny hefyd yn cael effaith ar y math o sefydliad addysg uwch y byddant yn dueddol o astudio ynddo. Pan ymgeisiodd myfyrwyr i gael mynd i sefydliadau addysg uwch, roedd ymgeiswyr yng Nghymru a Gogledd Iwerddon yn llai tebygol o gael cynnig gan brifysgol cyn-1992 os oeddent yn astudio mewn colegau na'u cyfoedion a oedd yn astudio mewn ysgolion, hyd yn oed pan oedd lefel eu cymwysterau'n debyg. Roedd ymgeiswyr o golegau yn Lloegr yr un mor debygol â'u cyfoedion o ysgolion i fynd i brifysgol cyn-1992, ac yn yr Alban roeddent yn llawer mwy tebygol o wneud hynny (Croxford a Raffe, 2014).

O ran gwella cyfraddau cyrhaeddiad mewn addysg alwedigaethol, mae Llywodraeth Cymru, er enghraifft, dros hanner ffordd at gyrraedd y targed i greu 100,000 o brentisiaid. Elfen allweddol o strategaeth brentisiaethau Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, yw darparu llai o Brentisiaethau Sylfaen a chynyddu nifer y bobl sy'n dechrau ar Brentisiaethau a Phrentisiaethau Uwch. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, prin yw'r arwyddion o unrhyw newid sylfaenol o ran cynyddu'r nifer sy'n dilyn Prentisiaethau Uwch (Boshier, 2019). Yn fwy cyffredinol, mewn gwledydd sydd â chfundrefnau Rhyddfrydol fel y Deyrnas Unedig, bu tuedd gan addysg alwedigaethol i gadarnhau ei statws ymddangosiadol eilaidd drwy ddiffinio'i hun fel dewis 'arall' o'i gymharu â chyrtsiau academaidd (Buchanan, 2018). Mae hynny'n golygu nad yw'r ddau lwybr yn cael yr un parch.

⁴ Ar sail ffigurau 2009–2010.

⁵ Roedd y rhain yn cynnwys: HNC, HND, FdSc, FdA, BSc, BA, PCET/PGCE, a rhaglenni Meistr. Ar sail arolwg Colegau Cymru o'i aelodau.

5. Y LENS GOFODOL


Gall lle gael effaith sylweddol ar ansawdd ac effeithiolrwydd yr addysg y bydd pobl ifanc yn ei chael. Mae rhieni sydd ag incwm uwch yn dueddol o fyw mewn cymdogaethau sydd ag ysgolion mwy effeithiol (Janmaat a Green, 2013). Mae hyn i bob pwrpas yn creu gwahaniaethau cymdeithasol rhwng ysgolion, gan fod cyfansoddiad anwastad dosbarthiadau cymdeithasol cymdogaethau yn cael ei adlewyrchu yng nghyfansoddiad anwastad dosbarthiadau cymdeithasol ysgolion. Yn gyffredinol, mae ysgolion a chanddynt gyfansoddiad mwy proffesiynol o ran eu dosbarthiadau cymdeithasol yn dueddol o sicrhau cyfraddau cyrhaeddiad uwch, gan fod cyfansoddiad ysgol yn dueddol o effeithio ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion. Mae cyfansoddiad cymdeithasol yr ysgol yn dylanwadu ar berfformiad disgyblion, fel y mae cefndir cymdeithasol y disgyblion eu hunain (Willms, 1997). Mewn system lle ceir gwahaniaethau, gall disgyblion difreintiedig wynebu anfantais o ganlyniad i

effaith negyddol cyfansoddiad yr ysgol, yn ogystal â dylanwad eu cefndir difreintiedig eu hunain.

Mae'n ymddangos bod bylchau rhanbarthol mewn cyrhaeddiad addysgol wedi'u gwreiddio'n ddwfn. Er bod y twf mewn cyrhaeddiad dros yr 20 mlynedd ddiwethaf wedi digwydd ledled y Deyrnas Unedig, bu ar ei gryfaf yn y rhanbarthau hynny a oedd eisoes â gweithlu mwy cymwysedig. Roedd adroddiad y Sutton Trust (2018) i'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Symudedd Cymdeithasol yn dangos y bwlch rhanbarthol mewn cyrhaeddiad ar lefel TGAU. Hefyd, rhwng diwedd y 1990au a heddiw, y rhanbarthau hynny a brofodd y twf mwyaf mewn pwyntiau canran yn eu poblogaethau 25-28 oed sydd â gradd yw'r un rhanbarthau a ddechreuodd y cyfnod hwnnw gyda chyfran uwch na'r cyfartaledd o bobl â chanddynt radd (Henehan, 2019).

CYFRAN RANBARTHOL Y BOBL 25-28 OED SYDD Â GRADD NEU GYMHWYSTER UWCH

Ffig. 5




Ffynhonnell: Henehan, 2019

Mae Henehan (2019) yn awgrymu bod nifer o resymau dros yr anghydwysedd gofodol hwn a welir wrth edrych ar y twf mewn cyrhaeddiad. Mae'r Arolwg o Lafurlu'r Deyrnas Unedig, sef ffynhonnell y data hyn, yn cyfrifo cyfran yr oedolion 25-28 oed sydd ar hyn o bryd yn byw mewn rhanbarth ac sydd â gradd, yn hytrach na chyfran yr oedolion 25-28 oed a gafodd eu geni, neu a gafodd eu magu, yn y rhanbarth hwnnw ac a aeth yn eu blaenau i gael gradd. I ryw raddau, felly, mae effeithiau cydgrynhoi'n debygol o ddylanwadu ar y data. Mae Henehan yn awgrymu y gellir gorbwysleisio'r effeithiau cydgrynhoi hyn, gan fod bron i hanner unigolion y Deyrnas Unedig yn byw ac yn gweithio yn y man lle cawsant eu geni.

Ar sail net, mae'n wir bod Cymru'n allforio graddedigion a bod tuedd i'r rheini sy'n mudo fod â lefelau cyrhaeddiad addysgol uwch. Serch hynny, awgrymodd ymchwil gan Bristow et. al. (2011) fod yn rhaid bod yn ofalus wrth honni bod colli doniau o'r wlad yn rhywbeth pendant. Serch hynny, fel y gwelir yn y siart isod, mae plant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol proffesiynol yn fwy tebygol o symud o ranbarthau'u plentynod ym mhob rhanbarth ym Mhrydain ac eithrio Llundain.

PERCENTAGE OF PEOPLE AGED 25-60 THAT MOVED AWAY FROM THEIR CHILDHOOD REGION, BY SOCIO-ECONOMIC BACKGROUND

Ffig. 6



Ffynhonnell: Y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol (2019) – Dadansoddiad o'r Arolwg o'r Llafurlu (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Ni ddarperir data am gefndiroedd proffesiynol Llundain yn y ffynhonnell, ond cadarnheir bod y ffigurau'n is na rhai'r dosbarth gweithiol

Mae diffyg symudedd mewn rhanbarth yn golygu bod sylfaen sgiliau'r rhanbarth hwnnw i raddau helaeth yn debygol o fod yn gynnrych ei sefydliadau addysg ei hun. Yn wir, canfu'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol (2017) fod rhanbarthau mwy cefnog yn dueddol o gynhyrchu mwy o bobl sydd â sgiliau lefel uchel wrth adael addysg. Canfu hefyd fod y rhanbarthau hyn yn perfformio'n well na gweddill y wlad o ran cyfran y bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig sy'n cael graddau TGAU 'da' mewn Mathemateg a Saesneg, yn ogystal ag o ran cyfran y bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig sy'n mynd yn eu blaenau i'r brifysgol. Er y dadleuir bod ysgolion

mewn ardaloedd mwy cefnog ar y cyfan yn cael llai o gyllid, dywed Hobbs (2016) fod ganddynt serch hynny adnoddau addysgu gwell. Awgrymir bod hyn oherwydd bod ysgolion sydd â chyfansoddiadau mwy cefnog o ran eu dosbarthiadau cymdeithasol yn dueddol o recriwtio athrawon mwy effeithiol. Ar ben hynny, mae'r cyfraddau trosiant ymhlith staff yn is mewn ysgolion sydd â chyfansoddiadau o'r fath o ran eu dosbarthiadau cymdeithasol. Credir bod cyfraddau trosiant is ymhlith athrawon yn gwella cyrhaeddiad addysgol disgyblion.

Mae'r tabl isod, a gynhyrchwyd o ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (2018), yn dangos canran yr oedolion oedran gweithio a oedd â chymwysterau ar lefelau gwahanol o dan y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol ym mhob un o awdurdodau lleol Cymru. Gan ddefnyddio'r data hyn, mae'n bosibl gweld perthynas glir rhwng yr awdurdodau lleol hynny sydd â lefelau cyfoeth uwch, a'r rheini sydd â chyfraddau

cyrhaeddiad uwch. Y pedwar awdurdod lleol sydd â'r gyfran uchaf o breswylwyr a chanddynt gymwysterau o dan Lefel Dau yw: Merthyr Tudful, Torfaen, Blaenau Gwent a Chasnewydd. Y pedwar awdurdod lleol sydd â'r gyfran uchaf o breswylwyr a chanddynt gymwysterau uwchben Lefel Pedwar yw: Sir Fynwy, Caerdydd, Bro Morgannwg ac Ynys Môn.

CANRAN YR OEDOLION OEDRAN GWEITHIO SYDD Â CHYMWYSTERAU AR LEFELAU'R FFRAMWAITH CYMWYSTERAU CENEDLAETHOL YN ÔL AWDURDODAU LLEOL CYMRU

Ffig. 7

	O Dan Lefel 2	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4+
Ynys Môn	12	18	24	40
Gwynedd	11	18	26	39
Conwy	15	22	18	39
Sir Ddinbych	13	23	21	35
Sir y Fflint	13	22	25	31
Wrecsam	14	23	21	36
Powys	13	19	23	38
Ceredigion	10	16	29	39
Sir Benfro	12	22	21	37
Sir Gâr	13	22	18	38
Abertawe	10	17	26	37
Nedd Port Talbot	14	25	20	31
Pen-y-bont ar Ogwr	15	19	19	36
Bro Morgannwg	12	15	19	48
Caerdydd	8	16	19	49
Rhondda Cynon Taf	14	21	21	33
Merthyr Tydfil	21	22	18	24
Caerffili	14	24	22	31
Blaenau Gwent	16	21	23	25
Torfaen	17	20	23	32
Sir Fynwy	11	16	16	51
Casnewydd	16	21	20	36
Cymru	13	20	21	38


Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, 2018

Er gwaethaf y cynnydd cyffredinol yn ystod yr ugain mlynedd ddiwethaf yng nghyfran y bobl ifanc sydd â chymwysterau lefel uwch, ceir tystiolaeth glir bod cyfradd y cynnydd blynyddol wedi arafu. Drwy'r Deyrnas Unedig i gyd, mae lefelau cyrhaeddiad yn parhau i gynyddu, ond mae'r twf wedi bod yn llai dros y blynyddoedd diwethaf nag ydoedd yn niwedd y 1990au a dechrau'r 2000au. Yn nodedig, ni fu arafu mawr yn achos graddau meistr a chymwysterau uwch. Gallai hyn adlewyrchu'r theori Anghydraddoldeb a Gynhelir Mewn Gwirionedd, y cyfeirir ati uchod. Roedd yr arafu i'w weld yn gymharol eang ym mhob rhanbarth. Mae'r arafu hefyd i'w weld ymhlith y rhywiau, ac ymhlith myfyrwyr sydd â statws lleiafrifoedd ethnig (ac eithrio gwrywod o gefndir Pobl Dduon, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig eraill) (Henehan, 2019).

Mae POLAR4 yn ddull o fesur anfantais sy'n rhannu ardaloedd yn gwintellau ar sail cyfran y bobl ifanc ynddynt sy'n mynd yn eu blaenau i addysg uwch. Ardaloedd POLAR4 Q1 yw'r ardaloedd sydd â'r cyfraddau isaf o bobl yn cymryd rhan mewn addysg uwch, ac ystyrir mai dyma'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, tra bo gan yr ardaloedd yn Q5 y cyfraddau uchaf o bobl yn cymryd rhan mewn addysg uwch, ac ystyrir mai dyma'r ardaloedd mwyaf breintiedig. Mae'r siart isod yn dangos cyfraddau ymgeisio pobl 18 oed ym mhob cwintell POLAR4 ers 2009. Er gwaethaf y sylwadau a wnaed uchod am theoriau Anghydraddoldeb a Gynhelir i'r Eithaf ac Anghydraddoldeb a Gynhelir Mewn Gwirionedd, mae'r cyfraddau ymgeisio wedi cynyddu ym mhob cwintell. Mae'r bwlch rhwng cyfraddau ymgeisio ymgeiswyr breintiedig a difreintiedig wedi culhau dros y cyfnod hwn, ond o fymryn yn unig.

CYFRADDAU YMGEISIO I'R BRIFYSGOL YMHLITH POBL 18 OED YN Y DEYRNAS UNEDIG YN ÔL CWINTELAU POLAR4 (2009-19)

Ffig. 8



Ffynhonnell: UCAS, 2019

Mae astudiaeth hydredol Anders a Dorsett (2015) yn edrych ar sut y mae patrymau pontio pobl ifanc o'r ysgol i'r gwaith wedi newid wrth gymharu gwahanol grwpiau o bobl a gafodd eu geni yn 1958, 1970, 1980, a 1990. Mae'r papur yn ystyried sut y mae nodweddion y bobl ifanc yn rhagfynegi pa mor llwyddiannus fydd y pontio hwn, ac a yw pethau wedi newid rhwng y pedwar grŵp. Maent yn canfod bod statws economaidd-gymdeithasol y teulu, gyda chyfuniad o ddangosyddion yn penderfynu hwnnw, yn dal yn rhagfynegydd cryf o ba mor debygol yw pobl ifanc o brofi proses bontio a fydd yn 'Achos Posibl dros Bryderu'. Canfu Hobbs (2016), er enghraifft, fod 81 y cant o bobl 16 oed yn Lloegr a oedd â'u tadau mewn galwedigaethau 'proffesiynol uwch' yn cael pum TGAU gradd A*-C neu ragor, neu gymwysterau cyfatebol, o'u cymharu â dim ond 59 y cant o'r rheini a oedd â'u tadau mewn galwedigaethol 'canolig', a dim ond 42 y cant o'r rheini a oedd â'u tadau mewn galwedigaethau 'ailadroddus'.

Mae Janmaat a Green (2013) yn awgrymu nad oes angen i anghydraddoldeb sgiliau fod yn broblematig os gall pobl o gefndiroedd cymdeithasol cyffredin ennill lefelau uwch o sgiliau yn gymharol rwydd, ond yn y Deyrnas Unedig mae'n ymddangos bod anghydraddoldeb sgiliau yn mynd law yn llaw ag etifeddiaeth gymdeithasol gref. Mae statws economaidd-gymdeithasol isel yn dal i fod yn arbennig o broblematig wrth i bobl geisio mynd i'r brifysgol mewn gwledydd sydd â chyfundrefnau Rhyddfrydol. O ran cyfraddau'r bobl sy'n cymryd rhan mewn addysg uwch, ceir bwlch mawr rhwng myfyrwyr o gefndiroedd statws economaidd-gymdeithasol uchel ac isel: yn y Deyrnas Unedig mae'r bwlch yn 46 y cant, mae'n 36 y cant yn yr Unol Daleithiau, ac mae'n 32 y cant yn Awstralia (Janmaat a Green, 2013).

6. Y LENS GWERTHUSO

Mae'n ymddangos bod perthynas rhwng anghydraddoldebau economaidd ac anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad addysgol. Yn y Deyrnas Unedig, mae anghydraddoldeb mewn cyrhaeddiad addysgol bellach yn uwch a symudedd cymdeithasol yn is nag mewn unrhyw wlad ddatblygedig arall. Mae lleoliad pobl yn cael effaith sylweddol ar gyrhaeddiad addysgol, gan fod tuedd i anghydraddoldebau economaidd gofodol gael eu hadlewyrchu mewn system ysgolion sydd wedi'i phegynnu'n economaidd. Mae cyfraddau cyrhaeddiad yn rhanbarthol ac yn lleol o ganlyniad yn gogwyddo'n drwm tuag at leoliadau mwy cefnog. Mae'r anghydbwysedd economaidd gofodol yn sylweddol yn y Deyrnas Unedig, ac mae i hyn oblygiadau mawr wrth geisio sicrhau canlyniadau addysgol mwy cyfartal.

Mae ansicrwydd ynghylch dyfodol gwaith yn golygu bod mwy o frys i roi sylw i anghydraddoldeb sgiliau nag erioed. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad yw'r farchnad economaidd Ryddfrydol a geir yn y Deyrnas Unedig mewn sefyllfa hanner cystal â chyfundrefnau Democratiaid Gymdeithasol a'r rheini lle ceir Marchnad Gymdeithasol wrth geisio sicrhau canlyniadau addysgol mwy cyfartal. Nid yw'n ymddangos bod y safbwynt generig sy'n golygu rhoi hyfforddiant sgiliau ar sail cymwyseddau, sef prif fethodoleg gwledydd sydd â chyfundrefnau Rhyddfrydol, yn cydnabod y ffactorau economaidd-gymdeithasol cyd-destunol sy'n effeithio ar gyrhaeddiad addysgol. Mae'n ymddangos bod y safbwynt hwn hefyd yn cynnig sicrwydd ynghylch pa sgiliau y bydd

eu hangen mewn swyddi yn economi'r dyfodol, ond mewn gwirionedd nid yw'r sicrwydd hwnnw'n bodoli.

Er nad oes data cenedlaethol ar gael sy'n rhoi tystiolaeth am les pobl yn ôl eu cefndir cymdeithasol, mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig fel arfer yn llai bodlon â'u bywydau, maent yn llai tebygol o feddwl bod y pethau maent yn eu gwneud yn werth chweil, ac maent yn llai tebygol o deimlo'n hapus ac yn fwy tebygol o deimlo'n bryderus. Canfu 'Global Millennial Survey' Deloitte (2019) fod dau draean y genhedlaeth a ddaeth yn oedolion wedi troad y mileniwm yn credu, o ganlyniad i'w cefndir, nad yw rhai pobl byth yn cael cyfle teg i lwyddo waeth pa mor galed y byddant yn gweithio. Ar ben hynny, canfu'r Arolwg nad yw'r bobl hyn yn teimlo mai symudedd cymdeithasol yw un o brif flaenoriaethau eu llywodraethau. Mae'r genhedlaeth hon yn y Deyrnas Unedig ymhlith y mwyaf anobeithiol ynghylch a fydd y byd a'u lle ynddo'n gwell.

Os yw polisïau addysg a'r methodolegau ar gyfer darparu addysg am wella lles pobl, yn hytrach na cheisio sicrhau cystadleurwydd economaidd yn unig, boed hynny'n llwyddiannus neu beidio, yna rhaid iddynt ganolbwyntio mwy ar feithrin yr hyn y mae Buchanan et. al. (2017) wedi'i alw yn 'ymagweddau dysgu'. Yn eu ffurfiau presennol, nid yw'n ymddangos bod addysg academaidd nac addysg alwedigaethol yn meithrin yr ymagweddau hynny'n ddigonol. Dylai addysg hefyd ganolbwyntio ar wella elfennau o



fywyd nad ydynt yn ymwneud â'r farchnad, a dylid barnu llwyddiant addysg, yn rhannol o leiaf, yn ôl y ffactorau hyn. Yng Nghymru, o leiaf, ceir bellach ofyniad statudol i ganolbwyntio ar elfennau ehangach lles ac ansawdd bywyd o ganlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gyda dwywaith nifer y bobl ddifreintiedig 16 i 18 oed yn astudio mewn lleoliadau addysg bellach nag yn y chweched dosbarth mewn ysgolion (Y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 2019), mae gan sefydliadau addysg bellach rôl allweddol wrth wella symudedd cymdeithasol a sicrhau lles pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig.

Mae'r bygythiad yn fwy nag erioed o'r blaen y gallai symudedd cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig a'r tu hwnt ddirywio i raddau di-droi'n-ôl. Ni allwn gefnu ar symudedd cymdeithasol yn wyneb yr argyfwng cymdeithasol cynyddol hwn. Fe all, ac fe ddylai, sefydliadau addysg bellach yng Nghymru geisio hybu symudedd cymdeithasol ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru a sefydliadau cyhoeddus, sefydliadau preifat a sefydliadau'r trydydd sector. Nid oedd y papur hwn yn ceisio rhoi argymhellion penodol ynghylch rôl sefydliadau addysg bellach wrth gefnogi symudedd cymdeithasol, ond yn hytrach y nod oedd rhoi lle canolog i symudedd cymdeithasol ar agendâu sefydliadau addysg bellach. Ceir diddordeb cymharol newydd yng Nghymru yn rôl yr hyn a elwir yn 'sefydliadau angori', sy'n cynnwys sefydliadau addysg bellach. Mae'n bwysig, fodd bynnag, nad yw diddordeb o'r fath

wedi'i gyfyngu mewn ffordd eithaf 'leihaf' i angori cyfoeth lleol. Wrth ddatblygu eu 'cenadaethau angori', rhywbeth y credwn y mae'n rhaid iddynt ei wneud, dylai sefydliadau addysg bellach ddangos ymrwymiad cryf i wella symudedd cymdeithasol yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae'n gwbl iawn bod gan golegau ymrwymiad cryf i wella cyrhaeddiad, ond mae angen ymrwymiad yr un mor gryf i gyfoethogi profiadau pobl. Mae sicrhau bod pobl yn cael cymwysterau yn realiti mewn darpariaeth addysgol, ond rhaid i addysg bellach hefyd roi sylw i faterion ehangach.

Mae sefydliadau addysg bellach mewn sefyllfa bron yn unigryw mewn cymunedau ledled Cymru i gyflwyno addysg ôl-16 i'r cyfuniad ehangaf posibl o bobl. Gyda bygythiad cynyddol mwy o ddiffyg symudedd cymdeithasol ar y gorwel, dyma gryn gyfrifoldeb. Dros y blynyddoedd nesaf, mae angen i Colegau Cymru weithio gyda'i aelodau yn y sector addysg bellach, Llywodraeth Cymru, ac eraill i ddatblygu cenadaethau angori ar gyfer pob sefydliad addysg bellach yng Nghymru, a'r cenadaethau hynny'n benodol ac wedi'u codio. Mae angen i genadaethau o'r fath roi sylw canolog i'r hyn y gall colegau ei wneud i hybu symudedd cymdeithasol, ac mae angen i Lywodraeth Cymru ymateb i'r trafodaethau a'r cynigion hyn wrth iddynt ddatblygu, gan edrych drwy lens cymdeithasol, lens cyflawni a lens gofodol, ac nid drwy lens economaidd yn unig.

CYFEIRIADAU

Anders, J. a Dorsett, R. (2015). What do young English people do when they reach school-leaving age: a cross-cohort comparison for the last 30 years. Y Ganolfan Ymchwil ar gyfer Dysgu a Chyfleoedd Bywyd mewn Economiau a Chymdeithasau Gwybodaeth.

Atherton, G. a Mazhari, T. (2019). Working Class Heroes: Understanding Access to higher Education for White Students from Lower Socio-economic Backgrounds. Y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Cyfleoedd Addysg.

Atkinson, A. B. (2015). Inequality: What Can Be Done? Caergrawnt: Harvard University Press.

Augar, P. (2019). Independent panel report to the Review of Post-18 Education and Funding. Llywodraeth Ei Mawrhydi.
Bills, D. B., Stasio, V. D. a Gerxhani, K. (2017). 'The Demand Side of Hiring: Employers in the Labour Market', Annual Review of Sociology, 43.

Bleysa, B. a Whitby, A. (2015). 'Barriers and opportunities for alternative measures of economic welfare', Ecological Economics, 117.

Boshier, P. (2019). Rhaglen brentisiaeth Llywodraeth Cymru: pwysau ariannu a pherfformiad hyd yma. Caerdydd: Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Boudon, R. (1974). Education, Opportunity, and Social Inequality. Efrog Newydd: Wiley.

Bristow, G., Pill, M., Davies, R. a Drinkwater, S. (2011). 'Stay, leave or return? Patterns of Welsh graduate mobility', People, Place and Policy Online, 5:3.

Britton, J., Dearden, L., Shephard, N. a Vignales, A. (2016). 'How English domiciled graduate earnings vary with gender, institutions attended, subject and socio-economic background', Working Paper (W16/6), Llundain: Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.

Buchanan, J., Wheelahan, L. a Yu, S. (2017). Skills and inclusive growth: From competency standards and twenty-first-century skills to capabilities and vocational streams (fersiwn o bapur a baratowyd ar gyfer Cyfarfod Rhanbarthol y Sefydliad Llafur Rhyngwladol ar Sgiliau a Dyfodol Gwaith: Strategaethau ar gyfer Twf Cynhwysol yn Asia a'r Môr Tawel, Bangkok, 12–13 Hydref 2017).

Buchanan, J., Ryan, R., Anderson, M., Calvo, R., Glozier, N. a Peter, S. (2018). Preparing for the Best and Worst of Times. Sydney: University of Sydney Policy Lab.

Castells, M., Caraça, J. a Cardoso, G. (2012). Aftermath: The Cultures of the Economic Crisis. Rhydychen: Oxford University Press.

Cheng, H., Green, A., Wolpert, M., Deighton, J., a Furnham, A. (2014). 'Factors influencing adult quality of life: Findings from a nationally representative sample in the UK', Personality and Individual Differences, 68.

ColegauCymru (2019). Creu Cymru well – gwersi o Ewrop: sgiliau a chydnerthedd economaidd. Caerdydd: ColegauCymru.

Croxford, L. a Raffe, D. (2013). 'Differentiation and social segregation of UK higher education, 1996–2010', Oxford Review of Education, 39:2.

Croxford, L. a Raffe, D. (2014). 'Social class, ethnicity and access to higher education in the four countries of the UK: 1996–2010', International Journal of Lifelong Education, 33:1.

Deloitte (2019). Global Millennial Survey.

Dorling, D. (2015). Inequality and the 1%. Llundain: Verso.

Field, J. (2013). 'Learning Through the Ages? Generational Inequalities and Inter-Generational Dynamics of Lifelong Learning', British Journal of Educational Studies, 61:1.

Green, A. (2011). 'Lifelong Learning, Equality and Social Cohesion', European Journal of Education, 46:2.

Green, A. a Pensiero, N. (2016). 'The effects of upper-secondary education and training systems on skills inequality. A quasi-cohort analysis using PISA 2000 and the OECD survey of adult skills', British Educational Research Journal, 42:5.

Gulliver, K. (2016) A Tale of Two Cities: Poverty and Prosperity in Birmingham. Birmingham: Human City Institute.
Henehan, K. (2019). Pick up the pace: The slowdown in educational attainment growth and its widespread effects. Resolution Foundation.

Hobbs, G. (2016). 'Explaining social class inequalities in educational achievement in the UK: quantifying the contribution of social class differences in school "effectiveness"', Oxford Review of Education, 42:1.

Jackson, B. a Marsden, D. ([1966] 2012). Education and the working class. Llundain: Routledge (Argraffiad Llyfrgell Routledge).

Jackson, M., Erikson, R., Goldthorpe, J. a Yaish, M. (2007). 'Primary and Secondary Effects in Class Differentials in Educational Attainment: The Transition to A-level Courses in England and Wales', Acta Sociologica, 50.

Janmaat, J. G. a Green, A. (2013). 'Skills Inequality, Adult Learning and Social Cohesion in the United Kingdom', British Journal of Educational Studies, 61: 1.

Lang, M. a Marsden, T. (2019). 'Rethinking growth: Towards the well-being economy', Local Economy, 33:5.

Leigh, J. (2001). 'Book Review: Walter McMahon. Education and Development: Measuring the Social Benefits; Oxford University Press: New York, 1999.', Economics of Education Review, 20.

Machin, S., Murphy, R. a Soobedar, Z. (2009). Differences in labour market gains from higher education participation. Y Panel Cydraddoldeb Cenedlaethol.

McMahon, W. (1999). Education and Development. Rhydychen: Oxford University Press.

Parker, P., Bodkin-Andrews, G., Marsh, H., Jerrim, J. a Schoon, I. (2015). 'Will closing the achievement gap solve the problem? An analysis of primary and secondary effects for indigenous university entry', Journal of Sociology, 51:4.

Pilling, D. (2018). The Growth Delusion: The Wealth and Well-Being of Nations. Llundain: Bloomsbury.

Reay, D. (2015). A radical manifesto for education. Discover Society.

RSA (2019). Adopting global skills innovation for the UK. Llundain: RSA.

Schuller, T., Bynner, J., Green, A. a Blackwell, L. (2001). Modelling and Measuring the Wider Benefits of Learning. Llundain: Y Sefydliad Addysg.

Smyth, J. (2016). "Education and the working class": a conversation with the work of Dennis Marsden and his contribution to the sociology of education', *Journal of Educational Administration and History*, 48:4.

Spretnak, C. a Capra, F. (1985). *Green Politics*. Llundain: Paladin.

Stiglitz, J., Sen, A. a Fitoussi, J. (2010). Report by the Commission on the Measurement of Economic Performance and Social Progress. Y Comisiwn Ewropeaidd.

Sutton Trust (2018). *Closing the Regional Attainment Gap*. Llundain: Y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Symudedd Cymdeithasol.

UCAS (2019). *January Deadline Analysis Report*.

Whitty, G. a Anders, J. (2014). (How) did New Labour narrow the achievement and participation gap? Y Ganolfan Ymchwil ar gyfer Dysgu a Chyfluoedd Bywyd mewn Economiâu a Chymdeithasau Gwybodaeth.

Willms, J. (1997). *Parental choice and education policy*. Caeredin: CES Briefing 12.

Worrall, P. (7 Mehefin 2017). *Chanel Four News Fact Check*.

Y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol (2017). *State of the Nation 2016/2017: Social Mobility in Great Britain*.

Y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol (2019). *State of the Nation 2018/19: Social Mobility in Great Britain*.
Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2017). *Meeting the OECD Council at Ministerial Level: Update Report 2017 – Inclusive Growth*. Paris: OECD.

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2018). *A Broken Social Elevator? How to Promote Social Mobility: Overview and Main Findings*. Paris: OECD.



Ffôn
02920 522 500

E-bost
hel@ccolegaucymru.ac.uk

Colegau Cymru
U7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB

Gwefan
www.colegau.cymru